# Funded for the Future: How the CYMell New Places Grant Helped Launch Mes Bach Ltd

When Mes Bach Ltd officially opened its doors on 1st September 2025 in Cross Hands, Carmarthenshire, it marked the culmination of months of hard work, careful planning and dedicated support. The new Welsh language wraparound, after-school and holiday club has quickly bec[SJ1]ome a nurturing and inspiring environment for children, with a strong emphasis on outdoor play and exploration.



Behind this success story is not only the vision and determination of Natasha Coleman, the club's founder, but also the tailored support she received from Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs and the CYMell project.

From the very beginning of Natasha's journey, she worked closely with her local Welsh Language Childcare Business Development Officer from Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs. This support was crucial in navigating the many steps involved in establishing a new childcare business. Natasha was guided through the development of policies and procedures, ensuring Mes Bach could provide safe, high-quality, and sustainable childcare provision.

**"The support has been exceptional—friendly, practical, and deeply reassuring,"**

She also accessed relevant Playwork training, equipping her with the knowledge and confidence to embed play at the heart of her new setting. This training reinforced Natasha's passion for creating a space that was not only practical for families but also child-centred, welcoming and nurturing.

A significant milestone in Natasha's journey was her engagement with the CYMell project, through which she successfully accessed the CYMell New Places Grant.

With the help of this funding, Natasha was able to bring her vision for Mes Bach Ltd to life, establishing a setting that now offers both families and children in Cross Hands an invaluable provision.

The impact of this support has been profound. Families now have access to flexible childcare that meets their needs, while children benefit from a rich variety of opportunities to play, discover and grow in a safe, supportive environment.

The collaboration between Natasha and Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs demonstrates the power of partnership working in strengthening childcare provision across Wales. Natasha's commitment, combined with professional guidance and financial support, has ensured that Mes Bach launched as a high-quality, sustainable setting with children's play and well-being at its core.

***"The staff at Mes Bach are so warm and caring. My daughter has settled in quickly and every time she comes home happy and full of stories. I feel confident knowing she's in safe hands. I am so grateful to them. Diolch – You're amazing!" Parent***

Mes Bach Ltd is already thriving, and its success stands as a shining example of how the right support can make a lasting difference. Natasha's story shows what can be achieved when passionate individuals are empowered by tailored guidance, training, and targeted funding.
As Mes Bach continues to grow, it will no doubt inspire other communities and providers across Carmarthenshire — and beyond — to embrace the opportunities that come from working together to create more playful spaces for children.







**September 2025**

Contact Us to find out more about the support Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs can offer your club.
www.clybiauplantcymru.org
info@clybiauplantcymru.org
029 2074 1000
Facebook
Twitter
Instagram

# Wedi'i Ariannu ar gyfer y Dyfodol: Sut Helpodd y Grant Lleoliadau Newydd, gan CYMell i lansio Mes Bach Ltd

Pan agorodd Mes Bach Ltd ei ddrysau'n swyddogol ar 1af Medi 2025 yn Cross Hands, Caerfyrddin, nododd hynny'r ddiwedd ar fisoedd o waith caled, cynllunio gofalus a chymorth ymroddedig. Mae'r clybiau Cymraeg newydd, sef clwb cofleidiol, clwb 'rôl ysgol a chlybiau gwyliau wedi dod yn amgylcheddau magwraeth ac ysbrydoledig yn gyflym i blant, gan roi pwyslais cryf ar archwilio a chwarae yn yr awyr agored.



Nid gweledigaeth a phenderfyniad Natasha Coleman, sylfaenydd y clwb, yn unig sydd y tu ôl i'r stori lwyddiant hon, mae'r cyngor personol a gafwyd gan Glybiau Plant Cymru Kids' Clubs a phrosiect CYMell wedi bod yn elfen hefyd. O ddechrau taith Natasha, bu hi'n gweithio'n agos gyda'i Swyddog Datblygu Busnes Gofal Plant Iaith Gymraeg lleol o Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs. Roedd y gefnogaeth hon yn hanfodol wrth lywio'r nifer o gamau sy'n gysylltiedig â sefydlu busnes gofal plant newydd. Cafodd Natasha ei harwain wrth iddi ddatblygu polisïau a gweithdrefnau, gan sicrhau y gallai Mes Bach ddarparu darpariaeth gofal plant diogel, o ansawdd uchel a chynaliadwy.

**"Mae'r gefnogaeth wedi bod yn eithriadol, cyfeillgar, ymarferol, ac yn galonogol iawn."**

Hefyd, cafodd mynediad at Waith Chwarae perthnasol, gan ei pharatoi â'r wybodaeth a'r hyder i ymgorffori chwarae wrth wraidd ei lleoliad newydd. Atgyfnerthodd yr hyfforddiant hwn angerdd Natasha dros greu lle a oedd, nid yn unig yn ymarferol i deuluoedd ond hefyd yn canolbwyntio ar y plentyn, yn groesawgar ac yn feithringar.

Carreg filltir arwyddocaol yn nhaith Natasha oedd ei hymgysylltiad â phrosiect CYMell, a thrwy hynny llwyddodd i gael Grant CYMell Lleoedd Newydd.

Gyda chymorth y cyllid hwn, llwyddodd Natasha i wireddu ei gweledigaeth ar gyfer Mes Bach Ltd, gan sefydlu lleoliad sydd bellach yn cynnig darpariaeth amhrisiadwy i deuluoedd a phlant yn Cross Hands.

Mae effaith y gefnogaeth hon wedi bod yn ddofn. Mae gan deuluoedd bellach fynediad at ofal plant hyblyg sy'n diwallu eu hanghenion, tra bod plant yn elwa o amrywiaeth gyfoethog o gyfleoedd i chwarae, darganfod a thyfu mewn amgylchedd diogel a chefnogol.

Mae'r cydweithrediad rhwng Natasha a Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs yn dangos pŵer gweithio mewn partneriaeth wrth gryfhau darpariaeth gofal plant ledled Cymru. Mae ymrwymiad Natasha, ynghyd ag arweiniad proffesiynol a chefnogaeth ariannol, wedi sicrhau bod Mes Bach wedi'i lansio fel lleoliad cynaliadwy o ansawdd uchel gyda chwarae a lles plant wrth ei wraidd.

***"Mae staff Mes Bach yn groesawus a gofalgar iawn. Mae fy merch wedi ymgartrefu'n gyflym a phob tro mae hi'n dod adref yn hapus ac yn llawn straeon. Rwy'n teimlo'n hyderus gan wybod ei bod hi mewn dwylo diogel. Rwyf mor ddiolchgar iddyn nhw. Diolch. Rydych chi'n anhygoel!" Rhiant***

Mae Mes Bach Ltd eisoes yn ffynnu, ac mae ei lwyddiant yn enghraifft ddisglair o sut y gall y gefnogaeth iawn wneud gwahaniaeth parhaol. Mae stori Natasha yn dangos yr hyn y gellir ei gyflawni pan fydd unigolion sy'n angerddol cael eu grymuso gan ganllawiau personol, hyfforddiant a chyllid wedi'i dargedu.
Wrth i Mes Bach barhau i dyfu, does dim amheuaeth na fydd y clwb yn ysbrydoli cymunedau a darparwyr ledled Sir Gaerfyrddin – ac ymhellach – i gofleidio'r cyfleoedd sy'n deillio o gydweithio i greu mwy o fannau chwareus i blant.







**Medi 2025**

Cysylltwch â ni i ddarganfod mwy am y cymorth y gall Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs ei gynnig i'ch clwb.

www.clybiauplantcymru.org
info@clybiauplantcymru.org
029 2074 1000
Facebook
Twitter
Instagram